

EGWYDDORION ANSAWDD

ASTUDIAETH ACHOS PRIFYSGOL DE CYMRU

PROSIECT YMARFER PROFFESIYNOL I FYFYRWYR

Mae Heloise Godfrey-Talbot, Darlithydd ym Mhrifysgol De Cymru, yn trafod sut y mae'r Egwyddorion Ansawdd yn cael eu cyflwyno i fyfyrwyr ar y cwrs gradd BA(Anrh) Celfyddydau Creadigol a Therapiwtig.

AM Y PROSIECT

Yn eu hail flwyddyn mae'r myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliad gwaith 8 - 10 wythnos trwy gydol y flwyddyn. Maent yn cynllunio a gwerthuso prosiect sy'n cynnwys sesiynau celf greadigol ar wahân ar gyfer llesiant mewn gwahanol leoliadau e.e. Ilochesi menywod, ysgolion Anghenion Addysg Arbennig. Yn ystod 2020/21, roedd mwyafrif y sesiynau hyn ar-lein (cydamserol neu anghydamserol).

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Fel rhan o'r addysgu ar gyfer y modwl rydym yn cyfeirio'n ôl at yr Egwyddorion Ansawdd sydd wedi eu cyflwyno ym Mlwyddyn 1. Mae Blwyddyn 2 yn wahanol i'r flwyddyn gyntaf gan fod y myfyrwyr yn gweithio'n fwy annibynnol i gynllunio eu prosiectau eu hunain, felly rydym yn edrych yn neilltuol ar adnoddau o gwmpas gwerthuso a chynllunio ar y cyd.

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Mae'r darlithwyr a'r myfyrwyr yn edrych ar yr Egwyddorion Ansawdd gyda'i gilydd. Rydym yn defnyddio'r fideos yn y darlithoedd ac yna yn eu trafod fel grŵp. Rydym hefyd yn eu harchwilio yn feirniadol i gymharu'r egwyddorion ag adnoddau eraill. Mae'r myfyrwyr yn cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Egwyddorion Ansawdd, er enghraifft, yn creu eu posteru eu hunain yn archwilio'r egwyddorion ac yn ystyried sut y mae'r rhain yn cysylltu'n benodol â'u hymarfer. Rwyf hefyd yn annog myfyrwyr i ddefnyddio'r offeryn myfyrio i helpu i werthuso sesiynau ac ystyried pa fath o ymarferwr ydyn nhw.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r Egwyddorion i feddwl am elfen newydd o'r profiad Lleoliad eleni – 'Gweithgareddau Etifeddol'. Creodd y myfyrwyr 4 Taflen Weithgaredd a'u rhoi gyda fideos i gyd-fynd â nhw i'r cyfranogwyr allu parhau i archwilio eu creadigrwydd ar ôl i'r Lleoliad orffen. Dyluniwyd y rhain ar ôl siarad â'r holl Randdeiliaid am yr hyn y byddent yn ei werthfawrogi felly roeddent yn canolbwyntio ar y sawl sy'n cymryd rhan.

BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Rwyf wedi gweithio gyda'r Egwyddorion fel rhan ganolog o'r addysgu ers nifer o flynyddoedd. Yr hyn oedd yn ddiddorol sylwi arno eleni oedd y ffordd y gwnaeth y sefyllfa Covid effeithio ar leoliadau a gallu myfyrwyr i ddefnyddio'r canllawiau arfer gorau hyn.

Er enghraifft, fel arfer byddai myfyrwyr yn treulio dau ddiwrnod Arsylwi ar Leoliad yn dod i adnabod y lleoliad, cyfarfod y rhai oedd yn cymryd rhan ac arsylwi cyn rhedeg eu Sesiynau Creadigol eu hunain. Roedd hyn yn eu galluogi i 'Gynllunio ar y Cyd' gyda'r cyfranogwyr cyn dechrau arni.

Nid oedd hyn yn bosibl eleni i raddau helaeth oherwydd bod rhaid iddynt fod ar-lein. Felly, fe wnaethom sylweddoli bod ar fyfyrwyr angen cyflwyno 'sesiynau dod i'ch adnabod' mwy cyffredinol ar y dechrau er mwyn cael gwybod am rai o'u diddordebau a'u gobeithion.

Yn ychwanegol at hyn, roedd sefyllfaoedd oedd yn newid yn gyson yn ei gwneud yn llawer mwy tebygol y byddai'r cyfranogwyr yn gadael y cwrs neu ddim ar gael trwy gydol y Lleoliad. Fel grŵp myfyrwyr fe wnaethom drafod sut y mae rhywbeth sydd wedi ei gynllunio ar y cyd yn edrych o eiliad i eiliad. Fe wnaethom drafod ei bod yn arbennig o bwysig Dathlu Cynnydd (Pobl, Ffocws ar Gynnydd y Cyfranogwyr) pan ei fod yn digwydd ac ar ddiwedd y sesiwn mewn sefyllfa lle mae posibilrwydd na fyddwch yn gweld y Cyfranogwr eto.

Celfyddydau Creadigol a Therapiwtig
Creative and Therapeutic Arts

**University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru**



**ArtWorks
Cymru**

AWGRYMIADAU DA

Mae'r egwyddorion yn ffordd wych o'n hatgoffa i sefydlu ymarfer gorau a thanio sgysiau gyda Rhanddeiliaid.

RHAGOR O WYBODAETH

www.southwales.ac.uk

